OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1004 (Cy.144)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *2 Ebrill 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *7 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(1) a (7)(a) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n barnu eu bod yn briodol(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2003 a deuant i rym ar 7 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**3**) yn cael eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 5 (arweiniad defnyddiwr gwasanaeth) —

(a) ym mharagraff (2)(b) hepgorir "ac";

(b) ym mharagraff (2)(c) yn lle "." rhoddir ";";

(c) ar ôl paragraff (2)(c) mewnosodir yr is-baragraff canlynol —

"(ch) os yw person ac eithrio defnyddiwr gwasanaeth neu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am gopi o'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth —

(i) trefnu bod copi o'r fersiwn gyfredol o'r arweiniad ar gael i'w archwilio gan y person hwnnw yn y cartref gofal; neu

(ii) darparu copi o'r fath i'r person hwnnw.".

(3) Ar ôl rheoliad 5, mewnosodir y rheoliad canlynol —

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol (*gweler* y diffiniad o "regulations" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000). Mae "appropriate Minister" wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) fel y Cynulliad mewn perthynas â Chymru, ac fel yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae "Assembly" wedi'i ddiffinio yn adran 5(b) fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf 2000 ynglyn â'r gofyniad i ymgynghori.

(**3**) O.S. 2002/324 (Cy.37), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2622 (Cy.254) ac O.S. 2002/2935 (Cy.277).

"**Gwybodaeth am ffioedd**

**5A.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu i bob defnyddiwr gwasanaeth ddatganiad ynghylch—

(a) y ffioedd sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth neu mewn perthynas ag ef am ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth unrhyw un o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau canlynol —

(i) llety, gan gynnwys darparu bwyd;

(ii) nyrsio;

(iii) gofal personol;

(b) y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae'r ffioedd y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) yn daladwy ar eu cyfer; ac

(c) y dull ar gyfer talu'r ffioedd a'r person y mae'r ffioedd yn daladwy ganddo.

(2) Yn achos defnyddiwr gwasanaeth y mae ei lety yn dechrau ar ôl 7 Ebrill 2003, rhaid darparu'r datganiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) ar neu cyn y dydd y daw'r person hwnnw yn ddefnyddiwr gwasanaeth.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth o leiaf fis ymlaen llaw am—

(a) unrhyw gynnydd yn y ffioedd y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1)(a);

(b) unrhyw amrywiad yn y materion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1)(b) ac (c).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) —

(a) os yw Awdurdod Iechyd neu Fwrdd Iechyd Lleol wedi hysbysu'r person cofrestredig ei fod wedi penderfynu gwneud taliad i'r person cofrestredig ar gyfer nyrsio a ddarparwyd (neu sydd i'w ddarparu) i ddefnyddiwr gwasanaeth, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth o'r penderfyniad hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;

(b) os yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud taliad o'r fath, rhaid i'r person cofrestredig ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth ddatganiad ynghylch dyddiad a swm y taliad.

(5) Nid yw'r cyfeiriadau ym mharagraff (4) at daliad yn cynnwys taliad —

(a) os yw'r Awdurdod Iechyd neu'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud trefniadau gyda'r cartref gofal ar gyfer darparu llety i'r defnyddiwr gwasanaeth; ac

(b) os yw'r taliad yn ymwneud ag unrhyw gyfnod pan fo llety yn cael ei ddarparu o dan y trefniadau hynny i'r defnyddiwr gwasanaeth yn y cartref gofal.".

(4) Yn rheoliad 39(2)(d)yn lle "cartref plant" rhoddir "cartref gofal".

(5) Yn y fersiwn Saesneg o reoliad 39(4) yn lle "children's home" rhoddir "care home".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

2 Ebrill 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002") er mwyn darparu bod rhaid i berson sydd wedi'i gofrestru mewn perthynas â chartref gofal ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ddefnyddiwr gwasanaeth —

(a) datganiad ynghylch ffioedd y cartref ar gyfer llety, nyrsio a gofal personol, a gwybodaeth arall mewn perthynas â thalu ffioedd;

(b) manylion unrhyw gynnydd yn y ffioedd neu amrywiad arall yn y materion y cyfeirir atynt yn y datganiad, a rhaid i'r wybodaeth hon gael ei darparu o leiaf fis cyn y bydd effaith i'r cynnydd neu'r amrywiad;

(c) datganiad ynghylch taliadau penodol a wnaed gan Awdurdod Iechyd mewn perthynas â nyrsio a ddarparwyd i'r defnyddiwr gwasanaeth gan y cartref.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2002 i ddarparu bod rhaid i berson sydd wedi'i gofrestru mewn perthynas â chartref drefnu bod copi o'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth i'r cartref ar gael i bawb sy'n gofyn am gopi, ac maent yn cywiro gwall drafftio yn Rheoliadau 2002.